



Ebrill 22 2018



Mae cwrdd bore 'ma yn nwylo Keith Rowlands gyda Helen Prosser. Bethan Roberts sy'n cyfeilio a Jane Eryl a Geraint oedd yn croesawu.

Y Suliau nesaf.....

Ebrill 29ain – Y Parchg Gethin Rhys gyda Huw Roberts, ac Eleri Huws yn cyfeilio

Mai 6ed - Sul Pentref gydag aelodau Meisgyn a Groesfaen gydag Eleri Huws yn cyfeilio

Mai 13eg – Sul Cymorth Cristnogol gyda Sian Elin yn cyfeilio

Mai 20fed – Oedfa i'r teulu gydag Elen George yn cyfeilio

Mai 27ain – Eirian, gyda Ann Rees, a Sian Elin yn cyfeilio

Mehefin 3ydd – Cymundeb, gydag aelodau Llantrisant, Llanharan ac unrhyw Lan arall hoffai gyfrannu.....

Dathliadau 150 y Tabernacl

I ddathlu 150 mlynedd ers codi Capel y Tabernacl gobeithiwn lwyfannu sioe yn olrhain hanes yr achos. Er bod dros ddwy flynedd yn weddill cyn cynnal y dathliadau bydd gofyn dechrau ar y paratodau cychwynol am y sioe yn fuan.

Estynnir gwahoddiad i unrhyw un sydd â diddordeb i gynorthwyo llunio sgript, cyfansoddi caneuon ynghyd â threfnu i lwyfannu'r perfformiad i gysylltu gydag un o aelodau'r Bwrdd.

WYTHNOS CYMORTH. CRISTNOGOL

Mai 13-19 ydy dyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Byddai John Llewelyn Thomas yn falch o glywed yn fuan gan unrhyw un sy'n fodlon helpu gyda'r casglu o ddrws i ddrws yn Efail Isaf.

Mae criw da yn gwirfoddoli fel arfer.

Os ydych chi ar gael, mynnwch air â John, ffoniwch 01443 218077, neu ebostiwch johnllewt@hotmail.com Diolch yn fawr.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 1 Mai. Os oes gennych adroddiad i'w gyflwyno neu fater yr hoffech ei godi yn y cyfarfod yna cysylltwch gyda Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) erbyn nos Llun 30 Ebrill fan bellaf.

Madagascar 1818-2018

Ar nos Wener 8fed o Fehefin bydd sioe i ddathlu hanes y cenhadon cynnar ar fferm Pen-rhiw – sef cartref David Jones, un o'r ddau genhadwr cyntaf – a bydd Oedfa Ddathlu ar y pnawn Sadwrn a chyngerdd i gyflwyno doniau Cymru a Madagascar ar y nos Sadwrn. Os oes unrhyw un awydd archebu tocynnau ar gyfer y sioe, a seddau cadw ar y bws wennol o Aberaeron i'r perfformiad cysylltwch gyda Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) am ffurflen archebu.

Mae dwy ddrama Gymraeg yng
Ngarth Olwg dros yr wythnosau
nesaf.

Estron –Theatr Genedlaethol Cymru
–Nos Fawrth, Ebrill 24 , 7.30pm

Miss Julie - Theatrau Rhondda
Cynon Taf - Nos Wener, Ebrill 27,
7.30pm. Cyfarwyddir a pherfformir
gan Gareth John Bale (Grav)

**Cynnig arbennig - £20 am docyn i'r
ddwy ddrama.**

Mae'r daflen wythnosol dan ofal
Sylvia Davies, Nia Williams a
Geraint Rees. Os oes gennych
faterion i'r daflen danfonwch nhw
at
geraintrees@hotmail.com

Os hoffech ddefnyddio'r ganolfan
neu'r capel, ebostiwch
carolinerees2@hotmail.com

Mae gwybodaeth reolaidd am y
capel ar www.tabernacl.org

Mae llwyth o bethau amrywiol a
chall ar www.cristnogaeth21.cymru

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL

'Rydym yn gymuned o bobl sydd
wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio
tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth
a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac
ysbryd yr Iesu.'



Theatr Genedlaethol Cymru
Canolfan Garth Olwg, Pentre'r Eglwys /
Garth Olwg Centre, Church Village,
Pontypridd
24 Ebrill / April 19:30
www.gartholwg.org / 01443 570 075
Nason Allan
Night Out

ESTRON

gan / by Hefin Robinson

Theatr Genedlaethol Cymru mewn
cydwelthredad ag Eisteddfod
Genedlaethol Cymru a Theatrau Sir Gâr

Theatr Genedlaethol Cymru in
association with the National Eisteddfod
of Wales and Carmarthenshire Theatres

@TheatrGenCymru
#Estron

Free audio translation via the Starbed app for
non-Welsh speakers and Welsh beginners.

Organ Celfyddyd Cymru
The Council of Wales

YMERODDWR
LLEFUR FUNDOD

Ymddiriedolaeth
Genedlaethol

Theatrau
Sirfa

THEATR
GEN CYMRU

CYNYRCHIAD THEATRAU RHCT GDYA CHEFNOGAETH CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
AN RCT THEATRES PRODUCTION SUPPORTED BY ARTS COUNCIL WALES



Miss Julie

Gan / By August Strindberg

Wedi'i gyfarwyddo gan Gareth John Bale, sydd hefyd yn serenu yn y sioel
Adaptiad newydd sbectol o'r ddrama gyffrous yma, wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.
Wedi'i osod ar droed yr ugeinfed ganrif, mae'r adfywiad cyffrous
yma o sioe glasurol Strindberg yn llawn angerdd, pŵer... a chwant!

Directed by and starring Gareth John Bale.
A brand new adaptation of this stirring period drama
presented in the Welsh Language.
Set at the turn of the 20th Century, this thrilling revival of
Strindberg's enduring classic is full of passion, power... and lust!
Oed/ Age 14+

Dydd Gwener 27 Ebrill | Friday 27 April - 7:30pm
CAMPWS CYMUNEDOL GARTH OLWG
GARTH OLWG COMMUNITY CAMPUS
£14.00 | £12.00
01443 570075

THEATRAU
THEATRES

Ymddiriedolaeth
Genedlaethol

Organ Celfyddyd Cymru
The Council of Wales

Ymddiriedolaeth
Genedlaethol